



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Ymchwilydd Clinigol mewn Awdioleg Bediatrig
Ysgol:	Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd
Gradd:	Gradd 6 (Pwynt 33)
Cyflog:	£37,467 y flwyddyn (pro-rata)
Daliadaeth:	Contract tymor penodol o 6 mis
Oriau:	18.5 awr yr wythnos (0.5 cyfwerth ag amser llawn)

Yn atebol i: Prif Ymchwilydd

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r cytundeb cyflogaeth.

Crynodeb o'r Rôl:

Mae hon yn swydd allweddol a fydd yn cyfrannu at uchelgeisiau Cynllun Strategol y Brifysgol 2017/18 - 2022/23.

Bydd deiliad y swydd yn perfformio mesuriad clust ganol gan ddefnyddio dyfais fasnachol o'r enw Wideband Absorbance Immitteance (WAI).

Byddant yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau awdioleg bediatrig dan arweiniad Meddyg Clywedol Ymgynghorol ac Ymgynghorydd Pediatrig yn Ysbyty Plant Arch Noa yng Nghymru a'r Ganolfan Iechyd Plant yn Ysbyty Dewi Sant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan mewn dadansoddi data, adborth ar draws gwerthuso a gwirio model, paratoi llawysgrifau, a gweithgareddau lledaenu.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

1. Arwain, cyflawni a bod yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer y prosiect ymchwil mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd ac Ysbytai allanol
2. Cysylltu â'r cydweithwyr clinigol ac amserlennu'r gweithgareddau casglu data.

3. Sefydlu system fesur WAI a chynnal y casgliad data clinigol yn ddiogel ac yn gywir;
4. Cydweithio i ddarparu adborth ar draws werthuso a gwirio'r offer dysgu dwfn;
5. Dadansoddi data a chrynhoi canlyniadau arbrofion mewn modd amserol;
6. Meddu ar ddealltwriaeth eang o'r llenyddiaeth wyddonol sy'n ymwneud â'r prosiect ac i fonitro datblygiadau newydd ym maes astudio;
7. Paratoi a chyflwyno gwaith mewn seminarau ymchwil a chyfarfodydd adrannol yn ôl yr angen;
8. Cyfrannu at adroddiadau cynnydd ar yr ymchwil fel sy'n ofynnol gan y cyllidwr at ddibenion yr adolygiad;
9. Ysgrifennu'r canlyniadau a chyfrannu at ddrafftio a chyflwyno papurau i gyfnodolion priodol a adolygir gan gymheiriaid

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y maent wedi cael eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd pob aelod o staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y brifysgol ac yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, cwrtais, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr/cwsmeriaid bob amser. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



MANYLEB PERSON

Swydd: Ymchwilydd Clinigol mewn
Awdioleg Bediatrig

Uned/Ysgol: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau
Iechyd Caerdydd

* Allwedd

Ff - Ffurflen gais

C - Cyfweliad

P/Cyfl - Prawf/Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	EU HASESU GAN		
		Ff*	C*	P/Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd Israddedig neu Ôlraddedig dda mewn Awdioleg	X		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	PhD mewn proffesiynau gofal iechyd cymhwysol neu radd AUD	X		
	Wedi cofrestru gyda'r RCCP neu HCPC	X		
	Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol.	X		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth am anatomeg a ffisioleg y glust ganol	X	X	X
	Gwybodaeth am dechnegau asesu awdiolegol pediatrig	X	X	X
Gwybodaeth (Dymunol)	Gwybodaeth am tympanometreg amllder lluosog (e.e., WAI)	X		
	Gwybodaeth am fodelu bio-beirianeg a thechnegau deallusrwydd artiffisial	X		
Sgiliau a Galluoedd (Hanfodol)	Y gallu i gyflawni asesiadau clyw pediatrig yn ddiogel ac yn gywir	X	X	X
	Y gallu i ddadansoddi'r data'n annibynnol a chrynhoi canlyniadau arbrofion mewn modd amserol	X	X	X
	Y gallu i ddangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar effeithiol	X	X	
Sgiliau a Galluoedd (Dymunol)	Y gallu i ddeall neu ddatblygu codau Matlab ar gyfer dadansoddi data WAI	X	X	
	Dadansoddiad ystadegol cymhwysol	X	X	

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	EU HASESU GAN		
		Ff*	C*	P/Cyfl*
Profiad a Dalwyd / Di-dâl (Hanfodol)	Lefel benodol o brofiad ymchwil ym maes gwyddorau patholeg clyw a lleferydd	X	X	
	Profiad gwaith sylweddol o asesiadau clyw pediatrig	X	X	
	Profiad o gynnal treialon clinigol a rheoli data	X	X	
	Profiad o gyflwyno canfyddiadau (ar lafar ac ar ffurf adroddiad)	X		
Profiad a Dalwyd / Di-dâl (Dymunol)	Profiad o weithio ar brosiect ymchwil o fewn amgylchedd ymchwil amlddisgyblaethol	X	X	
	Cofnod cyhoeddi mewn cyfnodolion proffesiynol	X	X	
	Profiad o lunio a chyflwyno grantiau.	x		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Sgiliau cadw cofnodion rhagorol a sylw i fanylion	X		
	Agwedd hyblyg at batrymau gweithio		X	
	Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm			X
	* Bydd penodiad yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB yn flaenorol).			X
Gofynion Eraill (Dymunol)	Parodrwydd i deithio a gweithredu rhwng campysau yn ôl yr angen		X	
	Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant pellach		X	
	Y gallu i siarad Cymraeg	x		